ClwydAlyn

Gweithio gyda'n gilydd i drechu tlodi

# Datganiad Caethwasiaeth Fodern ClwydAlyn

2023

**Cymdeithas Tai ClwydAlyn**
72 Ffordd William Morgan,
Parc Busnes Llanelwy, Llanelwy,
Sir Ddinbych, LL17 0JD

**ClwydAlyn Housing Limited**
72 Ffordd William Morgan,
St Asaph Business Park, St Asaph,
Denbighshire, LL17 0JD

# Datganiad Caethwasiaeth Fodern ClwydAlyn

# 2023

## Cynnwys:

Datganiad Caethwasiaeth Fodern ClwydAlyn 2023

Ein Cynllun Corfforaethol 2020-25

Cynnydd yn ystod 2022/23

Edrych tua'r dyfodol

Ein cynllun gweithredu ar gyfer 2023/24



## Datganiad Caethwasiaeth Fodern ClwydAlyn 2023

Gall caethwasiaeth fodern effeithio ar unrhyw un. Rydym yn deall ei bod yn drosedd gudd gyda phobl yn cael eu caethiwo mewn caethwasiaeth fodern oherwydd eu bod yn fregus ac yn cael eu twyllo a cham-fanteisio arnynt, o ganlyniad i dlodi ac allgauedd yn aml.

Mae Caethwasiaeth Fodern yn bresennol ym mhob rhan o'r Deyrnas Unedig. Dengys yr ystadegau diweddaraf bod caethwasiaeth yn parhau i gynyddu yng Nghymru. Yng Nghymru yn ystod 2021 cofnodwyd 479 o gyfeiriadau am ddioddefwyr caethwasiaeth posibl. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o 25% ers 2020.

Gwneir y datganiad hwn yn unol â Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015. Mae'n rhoi'r newyddion diweddaraf am ein gwaith gyda'n cadwyn gyflenwi, staff a phreswylwyr i gynyddu ymwybyddiaeth o Gaethwasiaeth Fodern. Mae'n rhoi'r diweddaraf am ein cynllun gweithredu ynghyd â gosod blaenoriaethau ar gyfer 23/24.

## Ein Cynllun Corfforaethol 2020-25

Cymdeithas Dai yw ClwydAlyn sy'n gweithio ar draws yr holl ardaloedd awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru. Yn 2020 fe wnaethom ddatblygu cynllun corfforaethol pum mlynedd, gan adeiladu ar ein cenhadaeth 'gyda'n gilydd i drechu tlodi'. Ers datblygu ein cynllun, ledled Cymru mae effeithiau Covid 19, BREXIT a'r rhyfel yn Wcráin wedi bod yn bellgyrhaeddol; gyda mwy o bobl yn ein cymunedau yn dioddef tlodi incwm, bwyd a thanwydd. Mae'r pandemig a'r argyfwng costau byw wedi effeithio'n anghymesur ar y cymunedau tlotaf gan gynnwys y rhai o grwpiau lleiafrifoedd ethnig, pobl ag anableddau a phobl ifanc o gymunedau LHDT.

Mae'r hen heriau yn awr yn gynyddol gymhleth i ymdrin â nhw. Mae pobl fregus mewn perygl o ddioddef cam-fanteisio, mae gwerthu cyffuriau wedi mynd yn broblem fwy peryglus yn ein cymunedau. Rydym yn gweld problemau diogelu cynyddol yn ein hardaloedd a phryderon am reoli a niwed ar gyfer pobl iau a hŷn. Rydym wedi ail-ddylunio ein gwasanaethau er mwyn ein galluogi i ddarparu ymyraethau wedi eu targedu a chefnogaeth yn ein cymunedau i helpu i ymdrin â'r problemau hyn.

Rydym yn gweithio mewn partneriaeth ag amrywiaeth o sefydliadau gan gynnwys y rhai sy'n adeiladu ein cartrefi a'r rhai sy'n helpu i gynnal a chadw ein heiddo, yn nodweddiadol maent yn gweithio gyda nifer o isgontractwyr i dynnu ar eu sgiliau arbenigol. Yn fwy cyffredinol, mae ein cyflenwyr yn darparu amrywiaeth o nwyddau a gwasanaethau gan gynnwys staff asiantaethau i fodloni anghenion staffio allweddol yn ein gwasanaethau gofal ynghyd â bwyd, glanhau a gwasanaethau eraill.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi dod yn gynyddol ymwybodol o'r effaith cadarnhaol y gall gweithio gyda chyflenwyr cyfrifol ei gael fel rhan o'r ffordd o feddwl am Economi Sylfaenol. Wrth i'n gwybodaeth ddatblygu o ran y model hwn, bydd mwy y gallwn ei wneud, i gael effaith gadarnhaol yn y cymunedau lle'r ydym yn gweithio ac i'r bobl yr ydym yn eu cefnogi.

## Cynnydd yn ystod 2022/23

Fe wnaethom redeg sesiynau ymwybyddiaeth Caethwasiaeth Fodern i'n Pwyllgor Preswylwyr a Hwyluswyr Caffael. Fe wnaethom weithio gyda Busnes Cymru i redeg rhaglen ymwybyddiaeth i'n cyflenwyr i gynyddu eu hymwybyddiaeth o brosesau Tendro; gan gynnwys egwyddorion Cyflogaeth Foesegol a Chaethwasiaeth Fodern. Rydym yn parhau i redeg hyfforddiant Diogelu i'r holl staff.

Rydym wedi diweddaru ein polisi a gweithdrefn Chwythu'r Chwiban sydd ar gael trwy ein gwefan; mae hwn yn rhoi eglurder ar sut y gall unrhyw un y tu allan i ClwydAlyn, gan gynnwys ein Preswylwyr, godi pryderon gyda ni am Gaethwasiaeth Fodern; mae'n esbonio sut y byddant yn cael eu cefnogi pan fyddant yn cysylltu â ni. Adolygwyd ein Polisïau Diogelu yn ystod y flwyddyn hefyd.

Rydym wedi parhau i reoli'r holl faterion Diogelu yn rhagweithiol trwy weithio mewn partneriaeth ag Awdurdodau Lleol gan gymryd camau i ymdrin â'r problemau wrth iddyn nhw godi. Rydym yn ymdrin â sefyllfaoedd cynyddol gymhleth yn ein cymunedau gydag amrywiaeth o dimau staff yn cefnogi ein preswylwyr; yn ystod y flwyddyn nesaf byddwn yn rhedeg sesiynau ymwybyddiaeth ychwanegol i'r holl staff i sicrhau eu bod yn hyderus wrth godi unrhyw bryderon am ddiogelu all fod ganddynt.

**Mae ein Harbenigwyr Llesiant a Chynhwysiant ynghyd â'n Swyddogion Ymyrraeth Gynnar wedi eu sefydlu'n llawn erbyn hyn yn eu swyddi. Prif ffocws eu gwaith yn dal yw cefnogi staff a phreswylwyr pan fyddant ar eu mwyaf bregus a'u cyfeirio at gefnogaeth arbenigol.**

Rydym yn parhau i fod yn effro i'r effaith negyddol y gall profiadau plentyndod niweidiol eu cael ar bobl trwy gydol oes. Ar ôl cwblhau'r hyfforddiant Gwybodaeth am Drawma ar gyfer ein swyddi allweddol, rydym yn awr mewn cyfnod lle'r ydym yn mesur effaith y newidiadau a wnaed o ran y ffordd yr ydym yn gwneud pethau.

Rydym yn parhau i fod â rhaglen ddatblygu uchelgeisiol i adeiladu tai cymdeithasol newydd yng Ngogledd Cymru ynghyd â rhaglen gynnal a chadw gynhwysfawr i'n cartrefi presennol. Rydym yn gweithio gydag amrywiaeth o gyflenwyr sy'n defnyddio amrywiaeth eang o is-gontractwyr ar gyfer y gwaith hwn.

Rydym yn gweithio gydag amrywiaeth o gyflenwyr am nwyddau a gwasanaethau ehangach; yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi dynodi'r cadwyni cyflenwi hynny lle'r ydym yn credu bod mwy o risg y bydd Caethwasiaeth Fodern yn digwydd. Rydym wedi bod yn casglu gwybodaeth am y polisïau a'r prosesau sydd ganddynt yn eu lle i reoli'r risg gysylltiedig.

Rydym wedi diweddaru ein dogfennau tendr i ofyn am wybodaeth ychwanegol am Gaethwasiaeth Fodern a Chyflogaeth Foesegol yn ystod gwahanol gamau ein proses dendro. Mae hyn yn cynnwys a oes gan y cyflenwr bolisi yn ei le a chynllun gweithredu, a yw'r sefydliad wedi bod yn destun unrhyw ymchwiliadau neu gyhuddiadau yng nghyswllt Caethwasiaeth Fodern, a yw'r sefydliad yn gweithredu egwyddorion y Gwir Gyflog Byw. Rydym hefyd wedi nodi cynlluniau i archwilio'r wybodaeth hon. Mae hyn yn berthnasol i bob tendr os yw trosiant blynyddol y cyflenwr yn cyrraedd y trothwy £36m sy'n gofyn am i ddatganiad gael ei wneud neu beidio.

Fe wnaethom gyflwyno ein Datganiad Caethwasiaeth Fodern yn wirfoddol i gofrestrfa newydd y Llywodraeth.

## Edrych tua'r dyfodol

Mae cefnogi'r rhai mwyaf bregus yn ein cymunedau yn ganolog i'n Cynllun Corfforaethol pum mlynedd. Mae hyn, ynghyd â'n grym prynu, yn rhoi cyfle i ni adnewyddu safonau sy'n bodoli a datblygu rhai newydd i gefnogi Diogelu ac arferion Cyflogi Moesegol yn ein cadwyn gyflenwi.

Rydym wedi dechrau datblygu ein Polisi a chyfarwyddyd Cyflogaeth Foesegol a fydd yn nodi'r safonau yr ydym yn cadw atynt ac yn disgwyl i'n cyflenwyr ymuno fel rhan o'u perthynas gontractaidd barhaus gyda ClwydAlyn. Bydd hyn yn cael ei gwblhau yn ystod 23/24.

Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'n cyflenwyr i ddeall y polisïau a'r arferion sydd ganddynt yn eu lle i liniaru risgiau Caethwasiaeth Fodern yn eu cadwyn gyflenwi.

**Mae ein cynllun gweithredu ar gyfer 2023/24 fel a ganlyn:**

- Byddwn yn ymgynghori ar ein Polisi a chyfarwyddyd Cyflogaeth Foesegol i'w gymeradwyo erbyn diwedd Rhagfyr 23.
- Byddwn yn parhau i adolygu polisïau a chyfarwyddyd Caethwasiaeth Fodern ein cyflenwyr fel rhan o'n hadolygiad o drefniadau masnachol; bydd hyn yn cynnwys cyflwyno ein Polisi Cyflogaeth Foesegol newydd.
- Byddwn yn codi ymwybyddiaeth o'n Polisi Chwythu'r Chwiban wedi ei ddiweddaru trwy'r gadwyn gyflenwi i gyd.
- Byddwn yn rhedeg digwyddiadau Diogelu ac ymwybyddiaeth o Gaethwasiaeth Fodern pellach ar draws y busnes.

Clare Budden

**Clare Budden**

**Prif Weithredwr y Grŵp**



Cymdeithas Elusennol Gofrestredig / Charitable Registered Society (Rhif/Number 22360R) Landlord Cymdeithasol Cofrestredig / Registered Social Landlord (Rhif/Number L051) Wedi ei hawdurdodi a'i rheoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol / Authorised and regulated by the Financial Conduct Authority
Byddwn yn trin gohebiaeth a dderbynnir yn y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal / We will treat correspondence received in English and Welsh on an equal basis